CYNGOR FULCHESTER
Tŷ'r Mynydd, Ffordd y Ddôl
Fulchester LL52 8PF
www.bwlchffordd.gov.uk

# Adroddiad ymyriad sefydliad busnes bwyd/safle bwyd

## Manylion y busnes

| | |
|---|---|
| Enw gweithredwr neu berchennog y busnes bwyd | Mr Luigi Benito |
| Enw Masnachu | Parlwr Pizza a Byrgyrs Papa |
| Cyfeiriadau'r Busnes/Cangen a'r Prif Swyddfa | 34 Stryd yr Eog, Fulchester, LL52 5HI |
| Cyfeiriad cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Math o fusnes | Gwerthwr bwyd symudol |

## Manylion yr ymyriad

| | |
|---|---|
| Dyddiad, amser a math o ymyriad (i'w nodi) | 12 Ebrill 2017 |
| O dan ba gyfraith bwyd benodol y cynhaliwyd yr ymyriad? | Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Cymru) 2013<br>Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 |
| Ardaloedd a arolygwyd/archwiliwyd (i'w nodi) | Fan |
| Enw(au) yr unigolyn(unigolion) a welwyd a/neu a gyfwelwyd | Luigi Benito |
| Dogfennau a/neu gofnodion eraill a archwiliwyd (i'w nodi) | Pecyn Bwyd mwy Diogel Busnes Gwell |
| Samplau a gymerwyd (i'w nodi) | Ddim yn berthnasol |
| Prif bwyntiau a drafodwyd yn ystod yr ymweliad (i'w nodi) | 1. **HACCP – Rheoli Diogelwch Bwyd:** Cafodd eich llyfryn "Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell" ei wirio, ac mae cofnodion a gwiriadau rheoli yn cael eu cwblhau.<br>2. **Glanhau/Glanweithdra:** Roedd baw a saim wedi cronni ar yr arwyneb gwaith lle mae'r bwrdd pren heb ei drin wedi'i leoli wrth y popty pizza, ac roedd soced drydan wrth y popty yn fudr. Rheoliad (CE) 852/2004, Atodiad II, Pennod III, para. 1 a 2(c)<br>3. **Strwythur/Cynnal a Chadw:** Nid oes modd diheintio'r bwrdd pren sydd heb ei drin wrth y popty |

| | |
|---|---|
| | pizza. Rheoliad (CE) 852/2004, Atodiad II, Pennod III, para. 2(b)<br>**Arall:** Cafodd y bwrdd pren heb ei drin a'r baw a saim a oedd wedi cronni eu nodi fel materion a oedd angen sylw gan Gyngor Dosbarth Chilchester yn gyntaf (5/5/2016). Nododd arolygiad gan Gyngor Dosbarth Wendover (6/4/2017) yr un mater (y bwrdd pren heb ei orchuddio a'r glanhau gwael cysylltiedig) ac mae'r arolygiad heddiw wedi cadarnhau bod hon yn parhau i fod yn broblem. Yn ogystal, nododd swyddog Cyngor Dosbarth Wendover ddau fater arall yn ei adroddiad, sef: ffon bren mewn bwced o sglodion; nid oedd y prôb bwyd yn cael ei ddiheintio, ac nid oedd y clytiau a oedd ar gael yn rhai diheintio. Roeddent hefyd wedi mynd heibio'r dyddiad 'dod i ben'. Rheoliad (CE) 852/2004, Atodiad II, Pennod IX, para 3 |
| Camau gweithredu i'w cymryd gan yr Awdurdod Bwyd (i'w nodi) | [redacted] |

**Camau gweithredu i'w blaenoriaethu/gwelliannau angenrheidiol**

**Noder** – Nodir camau gweithredu gofynnol er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chamau sy'n berthnasol i argymhellion arfer da ar wahân.

| | |
|---|---|
| Lefel gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | [redacted] |
| Cydymffurfiaeth â gofynion strwythurol | [redacted] |
| Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli | [redacted] |

**Sgôr hylendid bwyd**

| **Meini prawf a gafodd eu hasesu** | **Sgôr ymyriad** |
|---|---|
| Lefel gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | [redacted] |
| Cydymffurfiaeth â gofynion strwythurol | [redacted] |
| Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli | [redacted] |
| **Sgôr hylendid bwyd** | [redacted] |

Nodiadau i weithredwr y busnes bwyd

- Os ydych o'r farn bod y sgôr a roddwyd yn anghyfiawn, gallwch ei hapelio â'r Cyngor o fewn 21 diwrnod i'ch hysbysu am y sgôr. Gweler y manylion cyswllt isod.
- Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun, gan gynnwys ffurflenni templed ar gyfer apelio, cyflwyno 'hawl i ymateb' neu gyflwyno cais am ailarolygiad at bwrpas ailsgorio ar gael ar wefan y Cyngor neu drwy food.gov.uk/sgoriau**.** Caiff copïau papur eu darparu ar gais.
- Caiff sgoriau o 5 eu cyhoeddi ar food.gov.uk/sgoriau y tro nesaf i'r Cyngor lanlwytho data, sydd fel

arfer o fewn 14 diwrnod.

- Caiff sgoriau is na 5 eu cyhoeddi ar food.gov.uk/sgoriau ar ôl i'r cyfnod hysbysu (7 diwrnod) a'r cyfnod apelio (21 diwrnod) ddod i ben, a hynny fel arfer o fewn 28 diwrnod.

**Manylion y swyddog a gynhaliodd yr arolygiad a'r awdurdod lleol**

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | G McGraw |
| Enw mewn llythrennau bras | GRETA MCGRAW |
| Swydd | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| Manylion cyswllt | T 01229 253252<br>E g.mccgraw@fulchester.gov.uk |
| Manylion cyswllt mewn achos o herio | Michael Fitzhubert<br>T 01229 253203<br>E m.fitzhubert@fulchester.gov.uk |
| Dyddiad | 12 Ebrill 2017 |